| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 22 Tachwedd 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Julie Matthews / Barry Eaton |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Helen Vaughan-Evans, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau |
| **Awdur yr Adroddiad** | Barry Eaton (Prif Swyddog Digidol ac Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth Dros Dro Ebrill 2022-Medi 2023) |
| **Teitl** | Adroddiad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth 2022-23 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r cyfnod rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 ac yn rhoi gwybodaeth am lywodraethu gwybodaeth y Cyngor yn cynnwys mynediad diawdurdod at ddata o ran y Ddeddf Diogelu Data, ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Gwybodaeth Amgylcheddol a Diogelu Data a gafwyd gan y Cyngor a gwybodaeth gan ysgolion.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae Polisi Diogelu Data'r Cyngor yn gofyn am adroddiad blynyddol ar gynnydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i ganiatáu i'r Aelodau oruchwylio'r broses.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad, yn cynnwys Atodiad 1 a 2.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Ochr yn ochr â'r Swyddog Diogelu Data, mae ar yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) gyfrifoldeb penodol i sicrhau bod yr wybodaeth a gedwir gan y Cyngor yn cael ei rheoli'n ddiogel, yn effeithiol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth. Bu Prif

Swyddog Digidol y Cyngor yn gwneud swydd yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth dros gyfnod yr adroddiad hwn (Ebrill 2022 i Mawrth 2023) ac ef yw'r awdur.

4.2 Mae'r systemau a ddyluniwyd i sicrhau bod y rolau hyn yn cael eu gwneud yn llwyddiannus yn dibynnu ar dryloywder ac ar fod yn agored, felly mae'n arbennig o bwysig bod Aelodau'n cael trosolwg o'r trefniadau a pherfformiad llywodraethu gwybodaeth.

4.3 Ond er gwaetha systemau llywodraethu gwybodaeth y Cyngor, bu achosion o gael mynediad di-awdurdod at ddata o hyd, a chânt eu disgrifio isod ynghyd â gwybodaeth am rôl y Cyngor wrth reoli Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Ceisiadau am Wybodaeth Amgylcheddol a cheisiadau Diogelu Data (Ceisiadau gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain).

**Torri Rheolau Diogelu Data**

4.5 Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, cafwyd 27 digwyddiad yn ymwneud â data personol, llai na'r llynedd (2021/22) pan gafwyd 35, ond yn uwch na'r flwyddyn flaenorol (2020/21) pan gafwyd 22. Mae Tabl 1 yn Atodiad 1 yn rhoi rhagor o fanylion am yr achosion o dorri rheolau data a gafodd eu hysbysu yn ystod 2022/23, yn cynnwys y rheswm a'r nifer.

4.6 Er bod tri o'r digwyddiadau hyn yn rhai a ystyriwyd y dylid rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth amdanynt, nid arweiniodd unrhyw un o'r adroddiadau at gamau pellach yn erbyn y Cyngor.

4.7 Achos sylfaenol mwyafrif yr achosion hyn o dorri rheolau data oedd gwallau dynol. Er mwyn gwrthwneud hyn, mae gweithdrefnau newydd ar gyfer 'gwirio' o bell yn cael eu harchwilio, fydd yn arbennig o ddefnyddiol gan fod mwyafrif y staff swyddfa yn gweithio mwy o gartref.

**Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (RhG) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA)**

4.8 Cafwyd cyfanswm o 1,057 o geisiadau RhG a RhGA yn ystod y 12 mis at 31 Mawrth 2022. Mae Tabl 2 yn Atodiad 1 yn rhoi rhagor o fanylion am nifer y ceisiadau a gwblhawyd rhwng 2014/15 a 2022/23 yn cynnwys cyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd a'r nifer a'r canran a ymatebwyd iddynt o fewn y terfyn amser.

4.9 Cafwyd gostyngiad sylweddol mewn ceisiadau RhG a RhGA yn ystod 21/22 a dim ond 4% o gynnydd a welwyd yn ystod 22/23. Mae sefydliadau eraill hefyd wedi gweld gostyngiad yn nifer y ceisiadau a gafwyd ers 18/19.

4.10 Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ymateb i o leiaf 90% o geisiadau RhG a RhGA o fewn y terfyn amser. Rydym wedi cyrraedd y targed hwn eleni.

**Ceisiadau Diogelu Data (Ceisiadau am ddata personol)**

4.11 Cafwyd 236 o geisiadau diogelu data yn ystod 2022/23. Mae'n debygol bod y cyfanswm yn fwy yn 2022-2023 na 2021/22 (203 i gyd) oherwydd bod achosion Diogelu Data ar gyfer Gwasanaethau Plant bellach yn cael eu cofnodi'n ganolog fel mater o drefn. Mae rhagor o wybodaeth am gyfansymiau ers 2019/20 yn Nhabl 3 yn Atodiad 1.

4.12 Roedd 77 (32.5% o'r cyfanswm a gafwyd) yn Geisiadau gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain ac roedd 159 (67.5% o'r cyfanswm a gafwyd) yn Geisiadau Eithrio. Mae cyfran y ceisiadau Eithrio am ddata personol (gorfodaeth y gyfraith fel arfer) wedi parhau i godi eto eleni.

4.13 Ymatebwyd i tua 222 (94%) o'r holl geisiadau o fewn y terfyn amser. Sylwer: Yn dechnegol, nid oes gan geisiadau'r Heddlu ddyddiad "terfyn" statudol (mwy fel disgwyliad "cyn gynted ag sy'n bosibl"). Maen nhw wedi'u cofnodi yma fel "Tu Hwnt i'r Terfyn Amser" os byddant yn mynd dros fis calendr.

**Adolygiadau Mewnol**

4.15 Mewn rhai achosion, cafodd penderfyniadau am fynediad at wybodaeth eu herio gan yr ymholwr a chynhaliwyd adolygiad mewnol. Ar gyfer ceisiadau RhG a RhGA, roedd 16 adolygiad mewnol yn ystod 2022/23, a chafodd 8 ohonynt eu cadarnhau yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Mae'r rhain yn debyg i ffigurau'r llynedd, er bod nifer y canlyniadau ble cafodd yr her ei chadarnhau wedi gostwng.

4.16 Pan nad yw'n bosibl datrys materion yn uniongyrchol gyda'r ymholwr, neu os ydynt yn achosion cymhleth neu sensitif, gallant gael eu hystyried gan y Panel Mynediad at Wybodaeth a gafodd ei gadeirio gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth Dros Dro yn ystod 2022/23. Bu i'r Panel ddatrys un mater o'r fath yn ystod y flwyddyn, a'r penderfyniad oedd bod y cais yn flinderus.

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**

4.17 Ymyrrodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn un achos eleni, yn ymwneud â thai amlfeddiannaeth, ond ni chadarnhawyd cwyn yr ymholwr.

**Ysgolion**

4.18 Mae ysgolion unigol yn gyfrifol am y ffordd mae eu data'n cael ei reoli a nhw yw eu rheolyddion data eu hunain, ond mae'r Cyngor yn rhoi cefnogaeth, drwy eu Dirprwy Swyddog Diogelu Data i gyflawni'r safon uchaf o ddiogelu data. Mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad 2 am fynediad di-awdurdod at ddata mewn ysgolion a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data i ysgolion.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae'r adroddiad hwn yn cefnogi thema'r Cyngor i fod yn Gyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Amherthnasol

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Amherthnasol (adroddiad er gwybodaeth yn unig).

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Amherthnasol

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Ddim yn ofynnol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Er mai er gwybodaeth yn unig y mae'r adroddiad hwn, byddai risg i'r Cyngor pe na bai systemau rheoli gwybodaeth a diogelu data yn cael eu cynnal. Mae trosolwg gan Bwyllgor yn elfen bwysig o sicrhau bod ein systemau yn effeithiol.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Nid oes angen gwneud penderfyniad.